

13.6b DYFARNU TEITL DARLLENYDD: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU SWYDD DARLLENYDD – YMGEISWYR MEWNOL

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

DYFARNU TEITL DARLLENYDD: GWEITHDREFN AR GYFER DYFARNU SWYDD DARLLENYDD – YMGEISWYR MEWNOL

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cofnod hwn yn y Llawlyfr Academaidd yn disgrifio'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer dyfarnu swydd Darlennydd i ymgeisydd mewnol.

2. Cymhwysedd

- 2.1 Fel arfer, dim ond os yw'r unigolyn dan sylw'n Uwch-ddarlennydd o leiaf y dylid rhoi ystyriaeth.

3. Meini Prawf Darllenwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd

- 3.1 Mae'n rhaid i'r holl ymgeiswyr i fod yn Ddarlennydd allu dangos y canlynol yn eu cais:

- (i) Cyfraniad at hyrwyddo gwybodaeth drwy unrhyw un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:
- a. *Dysgu ac Addysgu* gyda thystiolaeth briodol ategol: er enghraifft, cyhoeddiadau a chyflwyniadau addysgol, gwaith llunio cwricwlwm a dangosyddion parch cydnabyddedig megis cymrodoriaeth addysgu prifysgol, profiad o fod yn arholwr allanol a chyllid ar gyfer datblygiadau dysgu ac addysgu;
 - b. *Ymchwil* gyda thystiolaeth briodol ategol: er enghraifft, cyhoeddiadau neu allbynnau ymchwil sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, profiad o oruchwylio ymchwil ac arholi a dangosyddion parch cydnabyddedig megis cyllid a dyfarniadau;
 - c. *Arloesedd* gyda thystiolaeth briodol ategol: er enghraifft, allbynnau sy'n berthnasol i weithgarwch trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd neu entrepreneuriaeth, ymelwa ar eiddo deallusol a dangosyddion parch cydnabyddedig megis rolau ymgynghorol a chyllid prosiect arloesedd;

- (ii) Y potensial i barhau â chyflawniad o'r fath tuag at statws Athro,

(iii) Cofnod boddhaol mewn meysydd eraill o gyflogaeth academiaidd.

4. Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr

- 4.1 Mae gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr y pŵer i ystyried ceisiadau am Ddarllenwyr.
- 4.2 Cyfansoddiad Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yw:
- Llywydd ac Is-Ganghellor (Cadeirydd)
 - Dirprwy Is-Ganghellor Academiaidd
 - Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesedd
 - Dirprwy Is-Ganghellor Gwella Profiad Myfyrwyr
 - Tri Athro a gaiff eu hethol gan y Bwrdd Academiaidd.
- 4.3 Bydd y tri aelod etholedig yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am ddwy flynedd gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi am hyd at bedair blynedd yn barhaus.
- 4.4 Caiff Athrawon allanol yn yr un maes neu faes tebyg i'r ymgeiswyr eu gwahodd i ymuno â'r Pwyllgor ar y cam dyfarnu. Os na all aelod allanol o'r Pwyllgor ddod i'r cyfarfod, gellir derbyn adroddiad ysgrifenedig yn lle hynny. Ni ddylai aelodau allanol o'r Pwyllgor weithio yn yr un sefydliad na bod ag unrhyw achos o wrthdaro buddiannau â'r ymgeisydd.
- 4.5 Hefyd, bydd gan y Pwyllgor yr opsiwn o gyfethol aelodau mewnol dros dro i'r Pwyllgor lle y bo'n briodol.
- 4.6 Mae'n ofynnol i holl aelodau Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr ddatgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau mewn perthynas ag ymgeiswyr ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor.

5. Gweithdrefn Ddyfarnu Fewnol

- 5.1 Caiff ceisiadau am deitl Darllenydd eu hystyried ar ddwy adeg o'r flwyddyn academiaidd, yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Caiff dyddiadau cyflwyno eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan Adnoddau Dynol. Gweler y siart lif yn Atodiad 1 am fwy o wybodaeth.
- 5.2 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais ysgrifenedig at Adnoddau Dynol, wedi'i gyfeirio at y Llywydd ac Is-Ganghellor. Dylai'r cais gynnwys cyfiawnhad manwl dros y dyfarniad nad yw'n fwy na phedair tudalen A4 gysodedig safonol gyda chyfeiriad clir at y meini prawf a nodwyd yn adran 3, ynghyd â *curriculum vitae* llawn. Dylai ymgeiswyr egluro'r canlynol yn eu cais:

Llawlyfr Academiaidd 2018/19 – Cyfrol 1 – 13.6b – Dyfarnu Teitl Darllenydd: Gweithdrefn ar gyfer Dyfarnu Swydd Darllenydd – Ymgeiswyr Mewnol – Cyflwynwyd yn gyntaf 24.04.91; addaswyd 26.05.99, 26.06.02, 02.03.05, 21.06.06, 21.08.07, 13.11.09, 21.06.10, 01.11.11, 03.08.12, 16.11.12, 15.11.13, 12.09.14, 27.02.15, 22.04.16; addaswyd ddiwethaf 01.01.18

- (i) Pa un o'r dangosyddion hyrwyddo gwybodaeth yn 3.1(i) y mae eu cais yn canolbwyntio arno'n *bennaf* (h.y., dysgu ac addysgu, ymchwil, arloesedd) ynghyd â gwybodaeth ychwanegol sy'n ymdrin â gweddill y dangosyddion;
 - (ii) Teitl Darllenydd bwriadedig ymgeisydd os caiff teitl ei ddyfarnu (e.e., *Darllenydd mewn Seicoleg*).
- 5.3 Bydd ymgeiswyr hefyd yn rhoi enwau tri chanolwr sy'n gallu cadarnhau manylion y cais a gwneud sylwadau ar raddau cyflawniadau'r ymgeisydd mewn perthynas â'r meini prawf perthnasol i Ddarllenwyr y mae'r ymgeisydd wedi ysgrifennu yn eu herbyn.
- 5.4 Fel arfer, dylai'r cais gynnwys argymhelliad ysgrifenedig llawn a manwl gan Ddeon Ysgol (neu'r unigolyn cyfatebol) yr ymgeisydd. Dylai Deon yr Ysgol hefyd anfon enwau tri chanolwr arall.
- 5.5 Mae'r broses ar gyfer ymgeisydd i fod yn Ddarllenydd mewnol yn cynnwys dau gam. Y cyntaf yw lle mae Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn ystyried cais yr ymgeisydd i gadarnhau a oes achos *prima facie* i'r cais fynd rhagddo ai peidio.
- 5.6 Os penderfynir na ellir cadarnhau achos *prima facie*, bydd y Brifysgol yn rhoi adborth i'r ymgeisydd yn unol â hynny.
- 5.7 Os mai'r penderfyniad yw y gellir cadarnhau achos *prima facie*, bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr yn penderfynu pa ganolwyr y dylid mynd atynt am sylwadau. Mae'n rhaid dewis o leiaf dri enw o blith y chwech a roddwyd.
- 5.8 Yna, bydd y cais yn mynd rhagddo i'r cam dyfarnu (cam 2) i'w ystyried: Bydd Adnoddau Dynol yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ac yn ysgrifennu at y canolwyr.
- 5.9 Ar y cam dyfarnu, bydd aelod allanol priodol yn ymuno â Phwyllgor yr Athrawon a'r Darllenwyr (gweler para. 4.4). Bydd y Pwyllgor yn ailarchwilio cais yr ymgeisydd, yn ogystal â'r geirdaon a gafwyd ac yn gwneud penderfyniad ar y cyd. Bydd gan y Pwyllgor hefyd y pŵer i argymell, os bydd angen, y dylid ceisio cyngor allanol ychwanegol ac ar wahân.
- 5.10 Bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y canlyniad. Bydd y Bwrdd Academaidd hefyd yn cael gwybod am y dyfarniad.

6. Amodau

- 6.1 Bydd y rhai y dyfernir teitl Darllenydd iddynt yn cael eu dyrchafu i radd Prif Ddarlithydd. Os yw'r ymgeisydd eisoes yn Brif Ddarlithydd, ni fydd ei gydnabyddiaeth/chydnabyddiaeth ariannol yn newid fel arfer.
- 6.2 Fel arfer, caiff teitl Darllenydd ei ddyfarnu ar gyfer hyd cyflogaeth ymgeisydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.
- 6.3 Caiff Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ddiddymu teitl Darllenydd oddi wrth gyflogai os bydd yn destun camau gweithredu a gymerir o dan y Weithdrefn Ddisgyblu (Camymddygiad a Pherfformiad Anfoddfaol) sy'n arwain at ddiraddiad neu ddiswyddiad. Caiff y Bwrdd Academaidd wybod os caiff teitl ei ddiddymu a'r dyddiad y daeth i rym.

7. Cyfle Cyfartal

- 7.1 Yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgarwch. Fel y cyfryw, caiff unigolion eu penodi ar sail teilyngdod a gallu. Bydd Pwyllgor yr Athrawon a'r Darllenydd hefyd yn ystyried amgylchiadau anacademaidd a all fod wedi cyfyngu ar ddatblygiad gyrfa broffesiynol ymgeisydd neu ei ohirio o ran maint yn hytrach nag ansawdd yr allbynnau a'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r teitl.

Atodiad 1: Amserlen

